Tydi a Roddaist

1. Tydi a roddaist liw ir wawr
A hud ir machlud mwyn
Tydi , a luniast gerdd a sawr
Y gwanwyn yn y llwyn
O, cadw ni rhag colli'r hud
Sydd heddiw'n crwydro drwy'r holl fyd.

2. Tydi a lunaist gan I'r nant
Ai su ir goedwig werdd,
Tydi, a roist ir awel dant
Ac ir eheddyd gerdd
O, cadw ni rhag dyfod dydd
Na yrr ein calon gan yn rhydd.

3. Tydi, a glywaist lithriad traed
Ar ffordd Calfaria gynt,
Tydi, a welaist ddafnnau gwaed
Y Gwr ar ddieithr hynt;
O, cadw ni rhag dyfod oes
Heb goron ddrain na chur na chroes.